



Ein cyf: JW/PL

29 Medi 2017

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Nyrsio Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Annwyl Gydweithwyr

Parthed: Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrsys Ardal Dros Dro

Mae gwasanaethau nyrsio cymunedol dan arweiniad nyrsys ardal yn rhan bwysig o'r tîm gofal sylfaenol amlddisgyblaethol ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer elfen gyffredinol graidd gofal nyrsio cymunedol oedolion. Mae'r gwasanaeth nyrsio cymunedol dan arweiniad nyrsys ardal yn gweithio law yn llaw â darpariaeth nyrsio fwy arbenigol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill yn y gymuned, sydd o'u hystyried gyda'i gilydd yn helpu i sicrhau bod GIG Cymru yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn lle neu'n agos at lle mae pobl yn byw. Wrth i'n disgwyliadau gynyddu i ddarparu mwy o ofal sylfaenol, ynghyd â'r gofynion yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, mae'n hollbwysig sicrhau bod y gweithlu nyrsio cymunedol dan arweiniad nyrsys ardal cywir gennym, sydd â chymysgedd priodol o sgiliau.

Mae llawer o waith i'w wneud i ddatblygu a threfnu gwasanaethau nyrsio ardal o fewn ac yn unol â'r gwaith o ddatblygu clystyrau. Hyd yma, ni chafwyd unrhyw ganllawiau ar ba ffactorau y dylid eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau nyrsio cymunedol dan arweiniad nyrsys ardal, sydd wedi arwain at ddulliau amrywiol. I fynd i'r afael â'r diffyg canllawiau, nod y Cynllun Gweithredu Gweithlu Gofal Sylfaenol 2017 diwygiedig a'r canllawiau dros dro a ddisgrifir yn y llythyr hwn yw cefnogi dull GIG Cymru o ddatblygu gofal sylfaenol a seiliedig yn y gymuned yn y dyfodol.

Pe bai Llywodraeth Cymru am ymestyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i wasanaethau nyrsio cymunedol, mae dau ffactor i'w hystyried. Yn gyntaf, pa mor barod yw adnodd cynllunio'r gweithlu seiliedig ar dystiolaeth yng nghyd-destun Cymru, ac yn ail dichonoldeb (o ran cost a pha mor barod yw'r gweithlu) cynnal y lefel staffio ofynnol o nyrsys.

Trwy waith Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan a'i is-grŵp, y Gweithgor Adnodd Cyfrifo Llwyth Gwaith a Gweithlu Nyrsys Ardal Cymru Gyfan, mae'n amlwg na fydd adnodd cyfrifo gweithlu digon cadarn a seiliedig ar dystiolaeth a dangosyddion priodol sy'n ystyriol o gleifion ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal am rai blynyddoedd.




Fel mesur dros dro ac i gefnogi byrddau iechyd i fod yn barod yn ymarferol ar gyfer unrhyw estyniad posibl i'r gyfraith yn y dyfodol, mae'r cyfarwyddwyr nyrsio, mewn cydweithrediad â'm swyddfa, wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion arweiniol dros dro i gefnogi'r gwaith o gynllunio lefelau staffio nyrsys yn y gymuned mewn gwasanaethau nyrsio ardal. Gweler yr egwyddorion sydd ynghlwm.

Mae'r egwyddorion arweiniol hyn wedi'u cefnogi ar ôl cyflwyniad ym Mwrdd Gweithredol y GIG a byddant yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Gofal Sylfaenol 2017 diwygiedig a'r canllawiau cynllunio ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2018/19. Bydd effaith a defnyddioldeb y canllawiau yn cael eu hadolygu gyda'r cyfarwyddwyr nyrsio a byddaf yn gofyn am ddatganiad sefyllfa llinell sylfaen yn erbyn yr egwyddorion yn gynnar yn 2018.

Rwy'n ysgrifennu i sicrhau eich bod yn clywed am y gwaith hwn yn gynnar a gofyn am gefnogaeth pawb yn y byrddau iechyd i ddatblygu gwasanaethau nyrsio sylfaenol a chymunedol o fewn y cyd-destun aml-ddisgyblaethol fel y nodir yn y Cynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol 2017, i sicrhau gweithlu priodol sy'n addas i ddiwallu anghenion y boblogaeth a disgwyliadau o ran gwasanaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jean White". The signature is written in a cursive, flowing style.

Yr Athro Jean White
Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

Cc Andrew Goodall
Frances Duffy
Julie Rogers

Egwyddorion Staffio Nyrsys Ardal

Mae'r egwyddorion staffio nyrsys ardal wedi'u datblygu i ddarparu cyfres gyffredinol o egwyddorion sy'n rhoi'r pŵer i nyrsys ardal a chymunedol wneud gwahaniaeth i unigolion yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae angen ystyried yr egwyddorion yn eu cyfanrwydd gan fod cyd-ddibyniaeth rhwng egwyddorion yn galluogi dull tri dimensiwn trionglog sy'n cyfleu cymhlethdodau gofal yn y gymuned a ddarperir gan nyrsys ardal yng Nghymru.

Mae'r egwyddorion wedi'u pennu o fewn y cyd-destun gweithredol sylfaenol canlynol:

- Dylid cynnal asesiadau gweithlu yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn o leiaf unwaith y flwyddyn a phan mae newid mewn llwyth gwaith wedi'i nodi yn llwyth gwaith tîm nyrsys ardal.
- Dylid strwythuro timau nyrsys ardal er mwyn iddynt rannu'r un ffiniau â dalgylch / ôl-troed y clwstwr a dylai fod gan bob clwstwr arweinydd clwstwr dynodedig ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal/cymunedol. Dylai fod gan bob tîm neu uned nyrsys ardal gymdogaeth, parth neu ardal ddaearyddol unigryw o fewn y clwstwr fel ei bod yn hawdd gwybod beth yw manylion cyswllt y timau nyrsys ardal yn ôl cyfeiriad y claf.
- Bydd cyfansoddiad staffio y timau nyrsys ardal yn dibynnu ar ac yn adlewyrchu'r asesiad o anghenion clwstwr y boblogaeth y mae'r tîm yn ei gwasanaethu a llwyth gwaith y tîm. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gartrefi gofal yn ardal y tîm ac a oes angen i'r tîm gefnogi cleifion Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Dylai'r gymysgedd o sgiliau o fewn y tîm ystyried gwasanaethau eraill yn y gymuned sy'n gwasanaethu'r ardal hefyd (er enghraifft timau ail-alluogi, timau ymateb cyflym neu allgymorth, timau gofal cymdeithasol a chymorth trydydd sector).
- Dylid cymhwyso egwyddorion gofal iechyd gochelgar i lwyth gwaith a gweithlu nyrsys ardal.

Egwyddor

1. Dylid defnyddio barn nyrsys proffesiynol i benderfynu ar sefydliadau tîm nyrsys ardal.
2. Dylid strwythuro timau nyrsys ardal er mwyn sicrhau eu bod yn rhannu'r un ffiniau dalgylch/ôl-troed y clwstwr. Dylai fod gan bob tîm nyrsys ardal gymdogaeth, parth neu ardal ddaearyddol unigryw y gellir ei adnabod o fewn y clwstwr.
3. Dylai'r gymysgedd o sgiliau ym mhob tîm dan arweiniad nyrsys ardal fod yn nyrsys cofrestredig yn bennaf gyda chefnogaeth gweithwyr cymorth gofal iechyd, yn dibynnu ar anghenion gofal y cleifion.
4. Dylai fod gan bob tîm neu uned nyrsys ardal Nyrs Ardal sy'n arweinydd clinigol gyda chymhwyster cofnodadwy NMC neu radd nyrsio cymunedol ôl-gofrestru a hyfforddiant arweinyddiaeth. Dylent dreulio o leiaf 20% o'u hamser yn rheoli achosion ac o leiaf 20% yn cyflawni gweithgareddau goruchwyllo, gan anelu at rôl ychwanegol lawn amser yn ôl anghenion y tîm neu'r uned.
5. Dylid cael o leiaf un Nyrs Ardal sy'n ddirprwy arweinydd tîm gyda chymhwyster cofnodadwy neu radd nyrsio cymunedol ôl-gofrestru a rheolwr achos hyfforddiant arweinyddiaeth ym mhob tîm nyrsys ardal.
6. I hyrwyddo parhad gofal unigolyn ac i ddatblygu arbenigedd am asedau yn y gymuned, dylai fod gan bob tîm neu uned nyrsys ardal o fewn clwstwr gyflenwad staffio o ddim mwy na 15 o staff / 12 cyfwerth ag amser cyflawn.
7. Dylid defnyddio ymgodiad 26.9% wrth gyfrifo'r gofod uwch o fewn tîm.
8. Dylai fod gan bob tîm fynediad i o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos.